# Cyngor Sir Ynys Môn

Adolygiad Thematig o Ysgolion
1911.13/14

Adroddiad Archwilio Mewnol

Rhagfyr 2013

## CYNNWYS


| | ADRAN | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1 | Rhagarweiniad | 1 |
| 2 | Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 3 | Darganfyddiadau | 2 |
| 4 | Cyfrifoldebau diffiniedig mewn perthynas â rheolaeth ariannol | 9 |
| 5 | Hyfforddiant a chyfarwyddyd gweithdrefnol | 10 |
| 6 | Casgliadau | 11 |
| 6 | Cynllun Gweithredu | 13 |


**RHEOLAETH ASEINIAD:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad Drafft** | 29 Tachwedd 2013 | **Archwilwyr:** | John Fidoe – Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio)<br>Eurwen Williams – Uwch Archwiliwr Mewnol |
| **Adroddiad Terfynol** | 20 Rhagfyr 2013 | | |
| | | **Noddwr y Cleient:** | Dr Gwynne Jones – Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| | | **Cylchrediad:** | Dr Gwynne Jones – Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Jayne Marr – Swyddog Addysg Uwchradd<br>Gareth Jones – Swyddog Addysg Gynradd<br>Clare Williams – Swyddog Adran 151 – er gwybodaeth. |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae gan y Tîm Archwilio Mewnol raglen dreigl tair/bedair blynedd o archwilio'r mesurau rheoli ariannol a llywodraethu allweddol yn yr ysgolion. O ganlyniad i'r broses hon, mae'r Tîm yn nodi rhai meysydd cyffredin lle mae rheoliadau'n wan neu lle nad ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson. Nod yr adroddiad hwn yw dwyn ynghyd y meysydd lle canfuwyd gwendidau o ran rheolaeth a gwneud argymhellion a fydd, os gweithredir arnynt, o gymorth i ysgolion gryfhau'r fframwaith rheoli mewnol yn y meysydd hyn.

**1.2** Yn 2011/12 a 2012/13 hyd yma, rydym wedi adolygu nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd ac wedi nodi'r meysydd lle 'roedd gwendidau yn amlwg yn y system reoli fewnol fel y nodwyd ym mhrif gorff yr adroddiad.

**1.3** Mae Archwilio Mewnol wedi cyhoeddi adroddiadau tebyg ar sail blynyddol dros nifer o flynyddoedd bellach ond mae'n amlwg bod yr un meysydd lle canfuwyd gwendidau o ran rheolaeth yn cael sylw flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r adolygiad hwn felly wedi mynd ymhellach na bod yn grynodeb o'r meysydd hynny y flwyddyn yma ac wedi edrych ar yr achos gwaelodol.

**1.4** Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaed ymholiadau gyda'r Gwasanaeth Addysg a Phenaethiaid yr ysgolion unigol i sefydlu pa hyfforddiant a pha arweiniad a roddwyd i aelodau o staff sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol o fewn ysgolion; adolygwyd disgrifiadau swydd hefyd i sefydlu'r cyfrifoldebau ar gyfer rheolaeth ariannol a chynnal rheolaeth fewnol. Gwnaed ymholiadau hefyd ynghylch pa hyfforddiant ac arweiniad a gynigir i lywodraethwyr ysgol ynglŷn â'u cyfrifoldebau i oruchwylio rheolaeth ariannol mewn ysgolion. Mae canlyniadau'r ymholiadau hyn wedi eu cofnodi yn rhan 5 yr adroddiad hwn.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

### 2.1 Amcanion yr Archwiliad

- Nodi'r prif wendidau a ganfuwyd yn y drefn ac effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol o safbwynt incwm a gwariant yn yr ysgolion a adolygwyd.
- Dwyn sylw at feysydd allweddol lle canfuwyd gwendidau yn y broses rheoli ariannol yn yr ysgolion a adolygwyd.
- Dwyn sylw at feysydd allweddol eraill nad ydynt yn rhai ariannol lle canfuwyd risgiau yn yr ysgolion a adolygwyd.
- Sefydlu pa hyfforddiant ac arweiniad sydd ar gael ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr mewn perthynas â rheolaeth ariannol mewn ysgolion.

### 2.2 Darganfyddiadau Allweddol

- Cafwyd yn gyffredinol bod yna ddifyg hyfforddiant a chyfarwyddyd gweithdrefnol ar gael i benaethiaid mewn perthynas â rheolaeth ariannol ac i aelodau eraill o staff ysgol gyda chyfrifoldeb dros gasglu , cofnodi a bancio incwm.

- Nid oedd yna gyfundrefn ffurfiol ar gyfer hysbysu staff perthnasol o'r angen i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a dim ond tystiolaeth prin fod gwiriadau goruchwyliol yn cael eu cynnal gan benaethiaid mewn perthynas â systemau ariannol. Mae hyn yn amlwg hefyd o'r cyfeiriadau y mae Archwilio Mewnol yn eu harchwilio.

- Nid oedd gan ysgolion gopiau o weithdrefnau'r Gwasanaeth Addysg / canllawiau ffurfiol i gefnogi'r gweithrediadau ariannol.

- Mae nifer o'r gwendidau rheolaethol sydd wedi'u dynodi o fewn yr adroddiad yma wedi cael eu hadrodd yn y blynyddoedd blaenorol a'u hadrodd yn flynyddol yn adroddiadau thematig y flwyddyn berthnasol.

- Ychydig dystiolaeth sydd bod rheolaethau yn y meysydd hyn wedi cael eu cryfhau fel a welir yn adroddiad 'Dilyn i Fyny' ar y cynnydd wnaed gan ysgolion i weithredu argymhellion uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn adroddiadau unigol i ysgolion yn y cyfnod 2012/13. Canlyniad yr archwiliad yma oedd mai 'ychydig gynnydd' yn unig wnaed gan yr ysgolion wrth weithredu ar yr argymhellion wnaed yn y cyfnod.

- Mae diffyg hyfforddiant digonol a chyfarwyddyd gweithdrefnol a chefnogaeth gan y Gwasanaeth Addysg, a diffyg systemau rheolaeth fewnol effeithiol o fewn yr ysgolion yn creu risg gynyddol o afreoleidd-dra ariannol a / neu colled ariannol.

## 3. DARGANFYDDIADAU

### 3.1 Rheoli Cyllidebau

- Mae cofnodion a gynhelir yn ganolog gan y Gwasanaeth Cyllid yn nodi bod gan 10 o'r 54 o ysgolion yn yr awdurdod falans negyddol ar eu mantolen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2012/13. Mae cofnodion hefyd yn dangos bod gan 22 o ysgolion gronfeydd wrth gefn sydd yn fwy na 5% o'u dyraniad cyllidebol. Mae Swyddfa Arolygiaeth Archwilio Cymru yn argymell cadw rhwng 3% a 5% o gyllidebau fel arian wrth gefn.
- Bu newidiadau yn y ffordd y mae ysgolion yn derbyn gwybodaeth ariannol - gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb ers gweithredu system ariannol Civica yn Ebrill 2013. Yn y gorffennol, roedd adroddiadau ledjer yn cael eu hanfon i'r Gwasanaeth Addysg ar ddiwedd pob mis ar gyfer eu llwytho i fyny i SIMS; roedd adroddiadau wedyn yn cael eu llunio'n ganolog a'u cyhoeddi ar gyfer yr ysgolion i bwrpas monitro.
- Yn 2013/14 mae cyllidebau ysgol wedi bod yn cael eu llwytho i fyny'n uniongyrchol i Civica (roeddent yn cael eu cadw mewn cyfrif penodol cyn hynny) ac mae adroddiadau manylach ar y gyllideb yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r ysgolion ar ddiwedd y mis trwy e-bost. Mae gan ddwy o ysgolion uwchradd yr awdurdod a 10 o'i ysgolion cynradd fynediad i Civica ar y we; mae hyn yn caniatáu i ysgolion gael mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch statws eu cyfrifon eu hunain.
- I sicrhau bod cyllid yr ysgolion, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn, yn cael eu rheoli'n briodol argymhellir y dylid cytuno ar strategaeth neu bolisi penodol ar gyfer rheoli cyllid ysgolion yn effeithiol; dylai'r strategaeth fod yn gyson â'r Cynllun

Datblygu Ysgol a dylai gynnwys goruchwylio a monitro'r gyllideb yn rheolaidd, gan nodi pa fanylion ariannol y dylid eu darparu i lywodraethwyr ysgol, fformat y wybodaeth honno, a pha mor aml y dylid ei ddarparu.

### 3.2 Dirprwyo pwerau ariannol

i. Nid oedd y pwerau ariannol a ddirprwywyd i'r pennaeth, y pennaeth a'r cadeirydd llywodraethwyr ar y cyd, a'r Is-Bwyllgor Cyllid lle mae hynny'n berthnasol yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn bob amser yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Addysg.

### 3.3 Datgan Diddordebau Busnes

**ii.** Er bod yr holl ysgolion a archwiliwyd yn y cyfnod yn cadw cofrestr o ddiddordebau busnes y prifathro a'r llywodraethwyr, nid oedd y cofrestrau yn gyflawn ym mhob achos ac nid oedd rhai yn cael eu hadolygu bob blwyddyn yn unol â'r canllawiau Ariannu Teg.

iii. Dylai'r Corff Llywodraethu sicrhau fod y gofrestr wedi'i diweddaru a'i fod yn gyflawn. Mae angen cwblhau a dyddio adroddiadau 'dim i'w adrodd' lle mae hynny'n briodol.

**iv.** I dystio bod y gofrestr yn gyflawn, dylai cadeirydd y llywodraethwyr ei harwyddo bob blwyddyn a dylai fod ar gael i'w gweld ar gais.

### 3.4 Incwm Cinio Ysgol

- Mae'r archwiliadau o gofnodion incwm prydau ysgol am y cyfnod wedi dwyn sylw at yr isod:

    i. Dylai'r cofrestrau cinio a'r cofnodion incwm atodol gael eu cynnal mewn inc yn hytrach na phensil fel bod cofnod parhaol yn cael ei greu.

    ii. Dim cofrestrau i gofnodi prydau i staff ac/neu ymwelwyr i'r ysgol.

    iii. Prydau am ddim i ddisgyblion heb gymeradwyaeth ffurfiol y Gwasanaeth Addysg.

    iv. Ffurflen 'Dadansoddiad o Brydau Ysgol a gafodd eu Gweini'(PY40) ddim yn cael ei chwblhau a'i harwyddo gan gogydd yr ysgol nac yn cael ei gwirio a'i chywiro gan y clerc prydau ysgol na'i hanfon yn brydlon i'r Gwasanaeth Addysg ar ddiwedd y mis yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Addysg.

    v. Camgymeriadau cyfrifo o fewn y cofrestrau prydau ysgol a balansau dyledion ddim yn cael eu cario drosodd yn gywir.

    vi. Cofnodion crynodeb wythnosol (CT183a) ddim yn cael eu cwblhau i gefnogi cyfrifiadau cofrestrau prydau ysgol ddyddiol ac i ganiatau cysoni'r cofnodion i gadarnhau cywirdeb.

    vii. Incwm prydau ysgol ddim yn cael ei fancio yn brydlon ac yn rheolaidd h.y. pan fo £200 neu fwy yn cael ei gasglu neu o leiaf unwaith yr wythnos.

    viii. Caniatáu i ddyledion prydau ysgol gyrraedd lefelau cymharol uchel a methiant i weithredu'n brydlon o ran cyfeirio dyledion i'r Gwasanaeth Cyllid i gychwyn camau ffurfiol i adennill dyledion lle mae hynny'n

briodol.

ix. Gwiriadau goruchwyliol ar y system incwm prydau ysgol ddim yn cael eu gwneud gan benaethiaid yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Addysg.

x. Penaethiaid ddim yn arwyddo'r cofnod misol CT182a ar gyfer incwm prydau ysgol a gesglir ar ddiwedd pob mis yn dilyn y tro diwethaf y cafodd arian ei fancio i gadarnhau bod y wybodaeth a gofnodir yn gyflawn ac yn gywir cyn anfon CT182a i'r Gwasanaeth Cyllid.

### 3.5 Archebu Nwyddau a Gwasanaethau

- Fel y dywedir yn 3.1 uchod, mae gan ddwy o ysgolion uwchradd yr Awdurdod a deg o'i ysgolion cynradd fynediad i system Civica. Mae'r cylch P2P (Procurement to Payment) yn caniatáu archeb am nwyddau/gwasanaethau i gyflenwr awdurdodedig ac yn caniatáu i swyddog awdurdodedig greu archeb ar y system. Mae'r swyddogaeth 'derbyn nwyddau' yn cael ei chwblhau ar ôl derbyn y nwyddau ac mae'r anfoneb yn cael ei sganio i mewn i'r system ac yn cael ei chyfatebu'n awtomatig gyda gwerth yr archeb a'r anfoneb yn cael ei thalu'n awtomatig.

- Mae dyletswyddau'n cael eu gwahanu ar y system Civica yn unol â lefelau mynediad awdurdodedig ac o fewn terfynau awdurdodi a benderfynwyd ymlaen llaw.

- Yr ysgolion hynny nad oes ganddynt fynediad i Civica yn parhau i gwblhau ffurflenni archebu'n faniwal a'i hanfon at SIMS i'w rhoi yn y system Civica. Dylai bod gan weithredwyr SIMS restr ddiweddaredig o lofnodwyr awdurdodedig ar gyfer pob ysgol i sicrhau mai dim ond trafodion sydd wedi eu hawdurdodi'n gywir sy'n cael eu prosesu.

- Yn sgil nifer o archwiliadau a gwblhawyd yn y cyfnod, nodwyd nad yw ysgolion yn aml yn dilyn y drefn gywir mewn perthynas â chwblhau ffurflenni archebu cyn prynu. O ganlyniad, nid oes trywydd archwilio clir i gadarnhau bod y gwariant wedi ei awdurdodi'n briodol ymlaen llaw ac, oherwydd nad oes cofnod o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a archebir, nid oes modd gwneud y gwaith gwirio cyn-ardystio priodol i sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau a dderbyniwyd yn cyd-fynd â'r manylebau a'r prisiau a gytunwyd.

- Yn ogystal, mae'r methiant i ddilyn y gweithdrefnau cywir yn golygu nad oes unrhyw gyllid wedi ei ymrwymo yn erbyn y cyllid yn y system SIMS. Mae hyn yn gostwng effeithiolrwydd y system cyfrifo ymrwymiad SIMS ac yn golygu bod mwy o berygl o orwario yn erbyn y gyllideb.

- Gwelwyd hefyd nad yw'r blwch 'stoc' ar y slipiau côd yn cael ei gwblhau ym mhob achos i gadarnhau bod y swyddog cyfrifol yn monitro'r pryniannau i bwrpas diweddaru cofnodion y rhestr stoc i gadw rheolaeth dros eiddo'r ysgol.

### 3.6 Casglu incwm cyffredinol

- Nodwyd enghreifftiau lle nad oedd derbynneb swyddogol wedi ei chwblhau a'i chyhoeddi ar gyfer incwm a dderbyniwyd gan yr ysgol e.e. ar gyfer gwersi cerdd, ffioedd gosod, rhoddion a mathau eraill o incwm gan gynnwys trosglwyddiadau o gyllidebau ysgolion. (Dosberthir llyfrau derbynebau gan Adain Ysgrifenyddol y Gwasanaeth Cyllid).
- I gydymffurfio â chanllawiau ymarfer da'r Gwasanaeth Addysg a sicrhau trywydd archwilio amlwg ar gyfer incwm yr ysgol, dylid tynnu llinell ar ôl y dderbynneb olaf berthnasol â'r bancio (copi melyn) a nodi gyferbyn y swm a fanciwyd a'r dyddiad priodol.
- Ni ddylid bancio incwm gwersi cerdd a gosodiadau yn y gronfa ysgol; mae'r incwm yma yn ddyledus i'r Cyngor ac fe ddylai gael ei fancio yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor. Dylid cwblhau'r ffurflen dadansoddiad incwm priodol (**CT202/CT34**) ar gyfer y bancio a'i hanfon at Arianwyr y Cyngor.

## 3.7 Gosodiadau

- Llywodraethwyr ysgol sy'n gyfrifol am bennu'r ffioedd a godir am osod eiddo'r ysgol. Er bod yr ysgolion a archwiliwyd yn y cyfnod wedi datblygu polisi codi tâl, nid oedd trefn ym mhob achos ar gyfer sicrhau bod y polisi'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol ac yn rheolaidd gan y llywodraethwyr i sicrhau bod y polisi a'r cyfraddau cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.
- Er mwyn dangos tystiolaeth bod y sawl sy'n hurio yn ymwybodol o delerau ac amodau ar gyfer gosod adeiladau ysgol ac wedi cytuno i lynu wrthynt, dylid sicrhau bod y sawl sy'n hurio wedi cwblhau ffurflen 'cytundeb i osod' ac wedi dychwelyd copi wedi ei arwyddo i'r ysgol cyn y gosod. Nodwyd nifer o enghreifftiau lle nad oedd hynny'n cael ei wneud.
- Mae'n rhan o'r drefn i gofnodi rhif y dderbynneb swyddogol a'r swm a gasglwyd ar gopi'r ysgol o'r ffurflen ar gyfer gosod, a hynny er mwyn sicrhau bod manylion yr incwm a geir yn gyflawn ac yn ddibynadwy. Unwaith eto, roedd enghreifftiau o beidio â chynnal y fath gofnodion.

## 3.8 Ffioedd Gwersi Cerdd

- Dylai'r ffi ar gyfer gwersi cerdd gael ei gosod gan y Corff Llywodraethu (oni bai bod yr hawl i wneud hyn wedi cael ei ddirprwyo'n ffurfiol i'r Pennaeth) a dylai gael ei hadolygu'n ffurfiol ar sail flynyddol. Roedd tystiolaeth i ddangos bod yr ysgolion a archwiliwyd yn y cyfnod yn cynnal yr adolygiad ffurfiol hwn o'r ffioedd a godir am wersi cerdd.
- Ffodd bynnag, nodwyd nad oedd y rhiant/gwarcheidwad, ym mhob achos, wedi arwyddo'r cytundeb priodol sy'n caniatáu i'r disgybl gael gwersi cerdd ac fel tystiolaeth o dderbyn cyfrifoldeb am dalu'r ffi lawn.
- Fel gyda'r incwm a geir yn sgil gosod yr ysgol, nid oedd cofnodion gwersi cerdd yn cael eu diweddaru bob amser i'w cofnodi yn erbyn manylion cofnod y disgybl o'r holl incwm a gasglwyd a rhif y dderbynneb swyddogol gyfatebol.

## 3.9 Staff Llanw

- Mae'r holl ysgolion yn cynnal cofnodion dyddiadur, un ai'n faniwal neu'n electronig, o'r defnydd a wneir o staff cyflenwi. Gwelwyd nad oedd y cofnodion yn gyflawn bob amser a'u bod yn aml yn brin o fanylion; dylai cofnodion gynnwys dyddiad a chyfnod y gwasanaeth a ddarparwyd a'r rheswm pam ei fod angen yn y lle cyntaf h.y. dylai'r cofnodion hyn fod yn ddigon cywir a manwl i sicrhau bod sail gadan i brifathrawon (neu swyddogion eraill sy'n gyfrifol am ardystio hawliadau am dâl) ardystio bod y gwaith wedi ei wneud ac awdurdodi'r hawliadau am dâl.

- Dylid cysoni adroddiadau ariannol misol (taliadau i athrawon cyflenwi) gyda'r cofnodion dyddiadur hyn i sicrhau bod y costau i gyllideb yr ysgol yn gywir.

## 3.10 Cronfa'r Ysgol

- Nid yw'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi prawf manwl ar y gronfa ysgol ond mae'n adolygu'r cofnodion cyfrifo i sefydlu a ydynt yn cael eu cynnal yn gronolegol ac ar ffurf sy'n dangos y balans cyfredol yn y cyfrif. Gwneir archwiliadau ar sail sampl i gadarnhau bod y gwariant wedi ei gefnogi gydag anfonebau/derbynebion dilys a bod cofnod cywir o'r incwm; edrychir ar slipiau talu i mewn a bonion llyfrau siec hefyd i sicrhau eu bod wedi eu cwblhau'n briodol er mwyn darparu trywydd archwilio o'r holl incwm a gwariant.
- Gwelwyd tystiolaeth ym mhob achos bod cofnodion wedi eu cysoni gyda datganiadau banc y gronfa ysgol i sicrhau eu bod yn mantoli.
- Fodd bynnag, gwelwyd mewn un achos bod sieciau ar gyfrif banc cronfa ysgol wedi eu llofnodi ymlaen llaw gan un o'r llofnodwyr awdurdodedig; ni ddylai sieciau mewn perthynas â'r gronfa ysgol gael eu llofnodi ymlaen llaw gan unrhyw un o lofnodwyr y cyfrif hwnnw; dylai'r holl ddogfennau cefnogol perthnasol fod yn eu lle cyn cyhoeddi sieciau.
- Mae'r prif ganfyddiadau mewn perthynas ag archwilio cronfeydd ysgol yn ymwneud â'r angen i'r cronfeydd gael eu harchwilio'n annibynnol yn flynyddol gan berson a benodwyd gan lywodraethwyr yr ysgol (Rheolau Gweithdrefn Ariannol 4.8.3.1.4). Dylid gwneud hyn ar unwaith yn dilyn diwedd y flwyddyn gyda'r ardystiad archwilio a datganiad cyfrifon yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r llywodraethwyr ar gyfer eu hadolygu.
- Rhaid i ddatganiad cyfrifon y gronfa ysgol gael ei gynhyrchu yn unol ag argymhellion y 'Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgolion' a dylai gynnwys digon o fanylion i ganiatáu bod y llywodraethwyr a'r rhieni yn cael darlun clir, dealladwy o weithgareddau'r gronfa.

## 3.11 Polisi Rhyngrwyd

- Dylai bod gan yr ysgolion bolisi cynhwysfawr, wedi'i gymeradwyo yn ffurfiol, ar gyfer y defnydd o'r rhyngrwyd; dylai bod y polisi yn cynnwys y defnydd a wneir o'r rhyngrwyd gan ddisgyblion, holl staff yr ysgol a'r llywodraethwyr. Dylai'r polisi ddatgan yn glir beth fyddai'n cael ei ystyried yn amhriodol a beth fyddai'r gosb debygol am beidio â chydymffurfio gyda'r polisi.
- Dylai'r ysgol gyflwyno copi o'r Polisi Rhyngrwyd yn ffurfiol i bob un sy'n defnyddio'r

rhyngrwyd a dylai pob aelod o staff a'r llywodraethwyr lofnodi cofnod i gadarnhau eu bod wedi derbyn a deall y polisi.

- Ni welwyd unrhyw faterion mewn perthynas â'r ysgolion a archwiliwyd yn y cyfnod ar wahân i'r angen i'r polisïau gael eu hadolygu'n ffurfiol yn rheolaidd er mwyn cadarnhau eu bod yn berthnasol ac er mwyn diweddaru'r polisïau.

### 3.12 Diogelu Data

- Roedd yr holl ysgolion archwiliwyd yn y cyfnod yn cynnal eu cofrestriad gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

### 3.13 Cofrestrau / Stocrestrau Eiddo

- Canfuwyd rhai gwendidau mewn perthynas â chofnodi a rheoli eiddo ysgol. Roedd y materion yn ymwneud a stocrestrau nad oeddent yn ddigon cywir a chyflawn, ddim yn ddigon manwl ac heb fod yn gyfredol. Nodwyd hefyd nad oedd gwaith gwirio blynyddol ar y cofnod o eiddo yn cael ei gwblhau bob amser na'i adolygu gan y Pennaeth yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.
- I gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor [4.8.3.3.1] dylai bod pob eitem o eiddo'r ysgol gyda pris prynu gwreiddiol o £250 neu ragor yn cael ei gofnodi ar gofrestr eiddo; dylid cynnwys rhifau cyfresol fel yn briodol.
- Dylai bod y gofrestr yn ddigon manwl ac yn cynnwys lleoliad yr eitemau ac fe ddylid diweddaru'r gofrestr yn gyfnodol i gofnodi unrhyw eitemau wedi'u gwaredu.
- O leiaf unwaith y flwyddyn, dylid cynnal gwiriad o eiddo yn erbyn cofnodiadau'r eiddo a chymryd camau priodol os oes anghysonderau. [4.8.3.3.2]
- Dylai'r sawl sy'n cynnal y gwiriad arwyddo a dyddio'r cofnodiadau eiddo i dystiolaethu bod y gwiriad wedi'i gwblhau; dylai'r Pennaeth adolygu canlyniadau'r gwiriad ac arwyddo'r cofnodiadau hefyd.

### 3.14 Marcio Eiddo'r Ysgol

- I atal lladrad a chaniatáu i eiddo gael ei adnabod yn hawdd, dylid marcio eiddo'r ysgol gyda marc amlwg a pharhaol. Gwelwyd nad oedd yr holl ysgolion a archwiliwyd yn y cyfnod yn sicrhau bod eiddo wedi ei farcio'n briodol rhag i bethau gael eu dwyn.

### 3.15 Cofnodiadau Brecwast

- Yn dilyn prawf Archwilio Mewnol mewn perthynas â gweinyddu'r cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion, fe welwyd nad oedd un ysgol yn cadw cofrestr ddyddiol o'r holl ddisgyblion oedd yn cymryd rhan yn y cynllun er mwyn gallu cysoni cofnodion wythnosol y cantîn ynghylch nifer y prydau brecwast a ddarparwyd a hefyd i gefnogi'r ffigyrau ar y ffurflen fisol oedd yn cael ei hanfon i'r Gwasanaeth Addysg (Atodiad C).
- Mewn rhai achosion roedd yna wahaniaethau bychan yn y ffigyrau oedd wedi eu cofnodi ar y ffurflen 'Atodiad C' o'u cymharu â'r cofnod yn y gofrestr frecwast. Dylai ysgolion sicrhau bod cofnodiadau yn gywir ac y gellir eu cysoni.

### 3.16 Arian Mân

- Nid oedd unrhyw faterion yn codi mewn perthynas ag arian mân yn y cyfnod. Dylid nodi'r canlynol er gwybodaeth:
- Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor dylid cyfyngu taliadau gydag arian mân i eitemau o fân wariant [4.8.4.6.4] a dylai'r balans o arian a ddelir ar gyfer ei ddefnyddio o ddydd i ddydd hefyd gael ei gyfyngu i werth isel.
- Dylid bod pob un o'r trafodion yn cael eu cofnodi a'u hategu gydag anfonebau TAW / derbynebau dilys.
- Dylai bod y cofnodiadau yn cael eu cysoni yn rheolaidd i'r balans o arian a ddelir gan berson annibynnol.
- Dylai bod yr arian a ddelir yn cael ei gadw'n ddiogel a mynediad ato yn cael ei gyfyngu fel yn briodol.

### 3.17 Trefniadau Llywodraethu ac Offerynnau Statudol

- Dylai cyfansoddiad y Corff Llywodraethu gydymffurfio ag offerynnau statudol yn unol â diffiniad y Gwasanaeth Addysg. Yn arbennig, sicrhau bod aelodaeth y corff llywodraethu'n gywir a bod cworwm ym mhob cyfarfod.
- Dywedodd rhai ysgolion ei bod yn anodd cael balans priodol o ran cynrychiolwyr.
- Dylai trefniadau fod yn eu lle i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu gweld rhaglenni, cofnodion a phapurau'r corff llywodraethu ac yn arbennig, dylai'r ysgol roddi sylw i'r angen i gydymffurfio ag offerynnau statudol (Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005) yn eu trefniadau i gadw cofnodion cyfarfodydd y llywodraethwyr, gan gynnwys y dogfennau atodol. Dywed y rheoliadau (adran 47) bod rhaid rhifo pob tudalen ac onid yw'r cofnodion yn cael eu cofnodi mewn llyfr priodol, yna rhaid i'r person sy'n gyfrifol am sicrhau eu cywirdeb lofnodi pob tudalen.
- Dylid sefydlu trefniadau i sicrhau fod polisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu diweddaru lle bod angen a'u cytuno yn ffurfiol gan y Corff Llywodraethu i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gyfredol a gofynion llywodraethu corfforaethol.

### 3.18 Targedau Perfformio

- Roedd gan yr holl ysgolion dargedau perfformiad oedd wedi eu cytuno'n ffurfiol ar gyfer y Pennaeth a'r Dirprwy cyn dechrau'r flwyddyn academaidd er mwyn sicrhau y byddai amcanion yr ysgol yn cael eu bodloni.
- Dylid atgoffa ysgolion o'r angen i anfon copïau o dargedau a chanlyniadau'r adolygiadau i'r Gwasanaeth Addysg.

### 3.19 Polisi Rheoli Fflyd a Gyrwyr

- Roedd profion a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn dangos nad oedd yr holl ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â Pholisi Rheoli Fflyd a Gyrwyr y Cyngor.
- Dylai bod gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Fflyd a Gyrwyr yr Awdurdod; yn benodol dylai gyrwyr gwblhau'r ffurflen ddatganiad briodol a chyflwyno'r dogfennau perthnasol i gefnogi'r datganiad.

- Dylid monitro cydymffurfiaeth â'r Polisi Rheoli Fflyd a Gyrwyr ar sail gyfredol; ni ddylid caniatáu i staff yrru unrhyw gerbyd ar waith y Cyngor os nad oes copi o drwydded yrru gyfredol a thystysgrif yswiriant ddilys (yn cynnwys 'defnydd busnes') wedi cael eu cyflwyno fel yn briodol.

### 3.20 Cyfrifiad Ystadegol

- Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu cofrestrau presenoldeb ysgolion er mwyn gwirio bod y ffurflenni cyfrifiad ystadegol a gyflwynir i'r Gwasanaeth Addysg wedi eu cwblhau'n gywir. Gwelwyd gwahaniaeth yn y ffigyrau ar gyfer niferoedd disgyblion mewn perthynas ag un ysgol a archwiliwyd yn y cyfnod ac fe adroddwyd am hynny gan wneud argymhelliad y dylai'r ysgol ymchwilio i'r amryfusedd a dweud wrth y Gwasanaeth Addysg am unrhyw gyfansymiau newydd er mwyn gallu cywiro'r dyraniad cyllidol fel oedd yn briodol.

## 4. CYFRIFOLDEBAU DIFFINIEDIG MEWN PERTHYNAS Â RHEOLAETH ARIANNOL

- **Cynllun Ariannu Teg -** mae'r fframwaith gyllido y mae'r Awdurdod Lleol yn dosbarthu cyllid i ysgolion a gynhelir yn unol ag ef, yn cynnwys gofynion yn ymwneud â rheolaeth ariannol a materion cysylltiedig.

Yn Adran 2.1.1 y cynllun: **Gosod rheolau ariannol mewn ysgolion** – fe ddywedir:

Rhaid i ysgolion lynu wrth ofynion yr Awdurdod yng nghyswllt rheolau ariannol a monitro wrth reoli eu cyllidebau dirprwyedig - y rhai sydd yn y cynllun a'r gofynion sydd mewn cyhoeddiadau mwy manwl ac y cyfeirir atynt yn y cynllun ond sydd y tu allan iddo ac yn gydnaws ag ef.

Bydd Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor sydd mewn grym ar hyn o bryd yn berthnasol i ysgolion, yn amodol ar y cymalau canlynol:

i) Bydd cyfeiriadau at y **Cyfarwyddwr Corfforaethol** neu'r **Pennaeth Gwasanaeth** yn cael eu dehongli fel cyfeiriad at y Pennaeth;

ii) Bydd cyfeiriad at **Bwyllgorau** yn cael ei ddehongli fel cyfeiriadau at y Corff Llywodraethu neu Bwyllgor fydd wedi ei awdurdodi gan y Corff Llywodraethu;

Bydd Rheoliadau Ariannol y Cyngor Sir sydd mewn grym ar hyn o bryd yn berthnasol i ysgolion yn amodol ar y cymalau canlynol:

i) Bydd cyfeiriadau at y **Cyfarwyddwr Corfforaethol** neu'r **Pennaeth Gwasanaeth** yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Pennaeth;

ii) Bydd cyfeiriad at **Bwyllgorau** yn cael ei ddarllen fel cyfeiriadau at y Corff Llywodraethu neu Bwyllgor fydd wedi ei awdurdodi gan y Corff Llywodraethu ac eithrio y bydd cyfeiriad at y Pwyllgor Gwaith yn parhau i gyfeirio at Bwyllgor Gwaith y Cyngor Sir.

O fewn Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor fe ddywedir:

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol hyn yn berthnasol i holl bwyllgorau'r Cyngor ac i'r Aelodau, i gyrff llywodraethu ysgolion ac i'r holl weithwyr (yn cynnwys y rhai mewn ysgolion gyda chyllidebau dirprwyedig) [4.8.1.3]

◆ **Disgrifiadau swydd / swyddogaethau diffiniedig -**

Mae cyfrifoldebau **penaethiaid** mewn perthynas â rheolaeth ariannol yn cael eu diffinio yn y disgrifiad swydd fel a ganlyn:

> Sefydlu gweithdrefnau gweinyddu effeithiol, yn cynnwys rheolaeth ariannol**;**
>
> Dyrannu, rheoli a chyfrifo holl adnoddau ariannol a materol yr ysgol.

Dywedodd y Gwasanaeth Addysg bod **llywodraethwyr ysgol** yn cael eu cyfeirio i wefan 'Llywodraethwyr Cymru' Llywodraeth Cymru (<http://www.governorswales.org.uk/law/>). Mae llawlyfr Llywodraethwyr Cymru wedi ei ddylunio i helpu llywodraethwyr ysgol ymgymryd â'u rôl a'u cyfrifoldebau fel llywodraethwyr ac i ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol.

## 5. HYFFORDDI A CHYFARWYDDYD GWEITHDREFNOL

◆ Ar amser yr ymchwiliad, fe ddywedodd y Gwasanaeth Addysg nad oedd unrhyw hyfforddiant ffurfiol yn cael ei ddarparu i benaethiaid mewn perthynas â rheolaeth ariannol mewn ysgolion. Dywedwyd hefyd nad yw penaethiaid yn cael gwybod yn uniongyrchol am yr angen i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor ac nid ydynt yn cael copi o weithdrefnau'r Gwasanaeth Addysg / cyfarwyddyd ffurfiol mewn perthynas â'r canlynol:

i. Gwaith siecio arolygol: incwm prydau ysgol;

ii. Archebu a thalu anfonebau;

iii. Casglu incwm cyffredinol a bancio;

iv. Casglu incwm gwersi cerdd a chofnodi;

v. Rheoli'r gronfa ysgol a gofynion archwilio.

◆ Rhaid nodi bod y dogfennau cyfarwyddyd gweithdrefnol sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd bellach wedi dyddio (yn cael eu cadw yn wreiddiol ar 'Wordpro') ac y mae elfennau o'r cyfarwyddyd e.e. gweithdrefnau yn ymwneud ag archebu nwyddau a gwasanaethau a thalu anfonebau wedi/yn mynd i gael eu disodli gan y system Civica P2P (Caffael - Talu). I raddau helaeth, sut bynnag, mae'r cyfarwyddyd yn parhau i fod yn berthnasol er nad yw wedi ei adolygu ers nifer o flynyddoedd.

◆ Dywedwyd wrth yr Archwiliwr bod y Gwasanaeth Addysg wrthi'n llunio rhaglen i benaethiaid newydd fydd yn cynnwys rheoli cyllideb ac y bydd bwletinau gwybodaeth yn ymwneud â gwahanol agweddau yn cynnwys e.e. rheoli cyllideb, yn rhan o'r cyfarfod busnes nesaf a gynhelir gyda phenaethiaid, gyda chyfarwyddyd mwy manwl i ddilyn.

◆ Fe ddywedodd sampl o benaethiaid y siaradwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad hwn eu

bod yn cael cynnig a'u bod yn mynychu cymorthfeydd a gynhelir gan y Cyfrifydd Gwasanaeth Addysg a'u bod yn eu cael yn ddefnyddiol iawn. Dim ond un allan o'r chwe pennaeth a holwyd fel rhan o'r archwiliad yma fob bynnag ddywedodd ei bod wedi derbyn hyfforddiant mewn perthynas â rheoli cyllideb. Dywedwyd hefyd nad oedd staff gweinyddol o fewn yr ysgolion yn derbyn hyfforddiant.

- Dywedodd y penaethiaid hefyd iddynt yn ddiweddar fynychu sesiynau 'gweithdy' yn cynnwys cyflwyniad ar y fformat adrodd yn ôl newydd o dan system ariannol Civica, ac roedd y sesiynau yn llawn gwybodaeth ac o gymorth.

- Fe ganfu ymchwiliadau uniongyrchol gyda sampl ar hap o benaethiaid oedd yn gweithio mewn ysgolion cynradd nad oedd gan y penaethiaid unrhyw ddogfennau cyfarwyddo gweithdrefnol i gefnogi gweithgareddau ariannol yr ysgol. Gwelwyd hefyd nad oedd penaethiaid yn ffurfiol ymwybodol o'u dyletswydd i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor ac er bod y rhan fwyaf o'r penaethiaid yn credu bod yna gopi o'r Cynllun Ariannu Teg yn yr ysgol, nid oeddent yn gwybod bod y cynllun yn gosod arnynt yr angen i gadw at 'ofynion yr Awdurdod ar reolau ariannol a monitro rheolaeth eu cyllidebau dirprwyedig - y rhai yn y cynllun a'r gofynion rheini mewn cyhoeddiadau mwy manwl y cyfeirir atynt yn y cynllun ond sydd y tu allan iddo ac yn gydnaws ag ef.'

- Dywedodd y Gwasanaeth Addysg nad oedd sesiynau hyfforddi yn ymwneud â'r agweddau ariannol o rôl llywodraethwyr wedi eu cynnal yn ddiweddar ond mae'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ar 'Rheoli Arian a Phersonél' ym Mawrth 2014.

## 6. CASGLIAD

- Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiadau archwilio mewnol mewn ysgolion a gynhaliwyd hyd yn hyn yn y cyfnod a'r ymholiadau a wnaed gyda'r Gwasanaeth Addysg a phenaethiaid mewn ysgolion unigol fel rhan o'r archwiliad, deuir i'r farn nad yw penaethiaid mewn nifer o ysgolion yn hollol ymwybodol o'r anghenraid i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a'r cyfarwyddyd gweithdrefnol atodol.

- Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer ac yn natur yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol a ryddhawyd yn y cyfnod hyd yn hyn ac mae'n cynyddu'r risg o afreoleidd-dra ariannol, neu waeth, o fewn y system.

- Mae nifer o'r gwendidau rheolaethol a ddynodwyd yn yr adroddiad yma (Par. 3.1 - 3.20) wedi eu nodi yn adolygiadau thematig y blynyddoedd blaenorol a'u hadrodd yn flynyddol yn adroddiadau thematig y flwyddyn berthnasol.

- Ychydig dystiolaeth sydd bod rheolaethau yn y meysydd hyn wedi cael eu cryfhau fel a welir yn adroddiad 'Dilyn i Fyny' ar y cynnydd wnaed gan ysgolion i weithredu argymhellion uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn adroddiadau unigol i ysgolion yn y cyfnod 2012/13. Canlyniad yr archwiliad yma oedd mai 'ychydig gynnydd' yn unig wnaed gan yr ysgolion wrth weithredu ar yr argymhellion wnaed yn y cyfnod. Mae adroddiadau ar weithredu ar argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar sail reolaidd ac nid ydynt yn rhoi darlun ffafriol o'r Gwasanaeth. Yn ychwanegol, mae Archwilio Mewnol wedi treulio amser anghymesur yn archwilio cyfeiriadau ynglyn ag afreoleidd-dra a / neu 'dwyll' yn

ymwneud ag arian ysgol.

- Nid oes hyfforddiant ffurfiol yn ymwneud â'r agweddau ariannol o rôl llywodraethwyr wedi ei gynnal yn ddiweddar ond mae'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ar 'Rheoli Arian a Phersonél' ym Mawrth 2014.

- Er nad oes hyfforddiant ffurfiol wedi'i ddarparu yn y gorffennol i gefnogi penaethiaid a staff gyfa chyfrifoldeb am systemau ariannol o fewn ysgolion, mae'r Gwasanaeth Addysg wrthi'n llunio rhaglen i benaethiaid newydd fydd yn cynnwys rheoli cyllideb ac y bydd bwletinau gwybodaeth yn ymwneud â gwahanol agweddau yn cynnwys e.e. rheoli cyllideb, yn rhan o'r cyfarfod busnes nesaf a gynhelir gyda phenaethiaid, gyda chyfarwyddyd mwy manwl i ddilyn.

## 7 Cynllun Gweithredu

Blaenoriaeth yr argymhellion waned fel a ganlyn:

| SYLFAENOL | ARWYDDOCAOL | ANGEN SYLW |
|---|---|---|
| GWEITHREDIAD YN ORFODOL I SICRHAU BOD NOD Y MAES MEWN GOLWG YN CAEL EI WIREDDU | ANGEN GWEITHREDU I OSGOI AMLYGIAD RISG ARWYDDOCAOL I WIREDDU NOD Y MAES MEWN GOLWG. | ARGYMHELLIR GWEITHREDIAD I WELLA RHEOLAETH NEU WELLA EFFEITHIOLRWYDD GWEITHREDOL |

| CYF | ARGYMHELLIAD | CATEGORI | DERBYN I/N | SYLWADAU RHEOLWYR | DYDDIAD GWEITHREDU | CYFRIFOL AM WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Dylai'r Gwasanaeth Addysg sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant digonol i'w cefnogi hwy yn eu swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â rheolaeth ariannol mewn ysgolion a chael trosolwg o reolaeth ariannol.<br>Dylai hyn gynnwys hysbysu staff mewn ysgolion yn ffurfiol o'u dyletswydd i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a chyfarwyddyd gweithdrefnol atodiadol y Gwasanaeth Addysg. | Uchel | Derbyn | Hyfforddiant cychwynnol i Lywodraethwyr I'w gynnal yn Chwefror 2014, gyda'r un negeseuon i'w rhannu ymhlith prifathrawon.<br>Hyn i'w barhau trwy raglan o gyfathrebu, arweiniad a hyfforddiant fel y bydd canllawiau'r Adran y cael eu diwygio. | Erbyn Mawrth 31, 2014 gyda rhaglen wedi hynny. | Swyddog Addysg Cynradd |
| 2.1 | Dylid adolygu'r dogfennau cyfarwyddyd gweithdrefnol, eu diwygio a'u gwella fel sy'n briodol er mwyn darparu cyfarwyddyd cyson a pherthnasol i staff yn yr ysgolion i sicrhau bod y systemau ariannol yn gweithio'n gywir a'u bod yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol. | Canolig | Derbyn | Bydd swyddogion yr Adran yn llywio rhaglen, yn unol a Chynllun Gweithredu, ar gyfer adolygu, diweddaru a chau bylchau yn y dogfennau cyfarwyddyd, yn unol a rheolau ariannol y Cyngor Sir. Y rhain fydd sail gweithredu'r rhaglen y cyfeirir ati uchod. | Erbyn Gorffennaf 2014 | Pennaeth Dysgu (swydd I'w llenwi yn Ionawr , 2014) |

| CYF | ARGYMHELLIAD | CATEGORI | DERBYN I/N | SYLWADAU RHEOLWYR | DYDDIAD GWEITHREDU | CYFRIFOL AM WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Dylai penaethiaid a staff gyda chyfrifoldebau ariannol dderbyn copi o Reolau Gweithdrefn Contractau ac Ariannol y Cyngor, neu derbyn manylion sut i gael myndediad atynt, a dylai bod raid iddynt arwyddo datganiad i'r perwyl eu bod wedi derbyn, deall a chytuno i gadw atynt. | Canolig | Derbyn | Trefnir i ddarparu esboniad o bwysigrwydd y trefniadau mewn cyfarfod prifathrawon cynradd, ac i bob ysgol fod a mynediad at y wybodaeth. Cedwir cofnod o pwy fydd wedi arwyddo yn yr ysgolion eu bod wedi derbyn y wybodaeth, yn deal ac yn cytuno I gadw atynt. | Mawrth 31 2014 | Swydog Addysg Cynradd |
| 4.1 | Dylai'r Gwasanaeth Addysg gylchredeg yr adroddiad hwn i'r holl ysgolion cynradd fel eu bod yn ymwybodol o'r materion a ddynodwyd ac i ysgogi adolygiad o'r systemau yn y meysydd hyn fel bo'n briodol. | Canolig | Derbyn | Trefnir i esbonio pwysigrwydd yr adroddiad a'r angen i weithredu yn unol a'i gynnwys a'r canllawiau fydd yn deillio o hynny mewn cyfarfod prifathrawon cynradd. Trefnir bod copi electronaidd o'r adroddiad yn cael ei ddarparu I bob pennaeth ysgol gynradd. | Mawrth 31 2014 | Swydog Addysg Cynradd |